Llyfrgell Caerdydd
Rhodd yr Awdur

LG35.5.164

23/5/11

O'R "GOLEUAD," MAI 10fed, 1911.]

# ER COF AM

# YR ARGLWYDDES RHYS,

O GOLEG YR IESU YN RHYDYCHEN,

**Yr hon a fu farw ddydd Sadwrn, y 29ain o Ebrill, 1911.**

GAN JOHN YOUNG EVANS M.A. (IEUAN MYNYW),
O GOLEG CORFF CRIST, YN RHYDYCHEN.

*Ceu geminas stellas aeterno uinxit amore*
*Pectora consortum non reserandus Hymen ;*
*Luce diu duplici fulgebat sidus, at una*
*Decidit e summo stella repente polo ;*
*Altera sospes adhuc, tristi sed lumine candet,*
*Et sequitur uiduam maesta per astra uiam.*

---

YMDAENODD ton o alar dwys dros Gymru pan darllenwyd y newydd prudd am ymadawiad yr Arglwyddes Rhys, priod garuaidd Syr John Rhys, penaeth Coleg yr Iesu yn Rhydychain. Er dioddef o honi, er's blynyddoedd bellach, oddiwrth afiechydon poenus a gwanhaol, eto daeth y diwedd yn dra anisgwyliadwy, ac yr oedd ei chymar hyglod ar y pryd wedi myned ar daith i Ffrainc. Teimlir y cydymdeimlad llwyraf a'r Athro trallodus a'i ddwy ferch alarus, nid yn unig gan Gymru gyfan, a chan aelodau Prifysgol Rhydychain, ond hefyd gan lu o ysgolheigion mawrddysg mewn llawer cangen o wybodaeth dros wyneb y byd gwareiddiedig.

Ganed Elizabeth neu Elspeth Davies—canys dyma ei henw morwynol—ger Llanberis, a rhyfedd meddwl, gan sirioled a bywioced ei hysbryd yn wyneb ei holl waeledd yn y blynyddoedd diweddaf, mai blwyddyn ei genedigaeth oedd 1841. Daeth yn athrawes yn bur fore, a bu yn cyfranu addysg, ymysg manau eraill, yn Amlwch, lle y cyfarfu gyntaf a John Rhys, athraw ysgol Rhosybol. Yma y dechreuodd un o'r penodau rhyfeddaf eu swyn a'u rhamant yn holl hanes serchogion Cymru, a'r rhan hon o fywgraffiad y ddeuddyn hoffgar hyn a ddyry ddefnydd rhiangerdd felusber. Nid oerodd cariad y fun brydweddol tuag at ei darpar wr tra yr esgynai efe, ger bron llygaid cenedl gyfan, risiau serth dysg ac enwogrwydd yn Rhydychain, gan enill, ar derfyn ei yrfa athrofaol, gymrodoriaeth werthfawr yn Ngholeg Merton. Gyda chyffelyb ffyddlondeb darparodd yntau yn helaeth iddi hithau foddion hyfforddiant ar gyfer ei bywyd priodasol yn y cylchoedd uchel yr arfaethid iddynt droi ynddynt. Trefnodd i'w ddyweddi fyned ar daith i Ffrainc a'r Eidal, i astudio ieithoedd y gwledydd hyny ac efrydu y celfau cain. Gymaint ydoedd ei medrusrwydd fel arlunydd nes y tynodd o bryd i bryd ddarluniau o rai o enwogion Rhydychain, ac yn eu plith y diweddar Broffeswr E. A. Freeman, yr hanesydd byd-enwog, a'i phriod. Yr ydoedd yn efrydes mewn ieithyddiaeth yn y Sorbonne yn Paris, pan dorodd y rhyfel allan rhwng Ffrainc a'r Almaen, a gorfu iddi ddychwelyd ar frys i'r wlad hon. Yn bur fuan wedi hyny ymsefydlodd hi a'i gwr yn y Rhyl, lle yr oedd efe yn arolygydd ysgolion. Ymhen ychydig flynyddoedd etholwyd ef i gadair newydd yr ieithoedd Celtaidd yn Mhrifysgol Rhydychain. Ganwyd iddynt ddwy ferch a mab. Bu farw y mab, ac yn Llanberis y gorwedd. Ni raid crybwyll yr enwogrwydd y cyrhaeddodd eu merched iddo mewn ysgolheigdod, yn enwedig ynglŷn â ieithoedd diweddar, a'r hynaf, sef Myfanwy, yn dra hyddysg hefyd yn yr ieithoedd clasurol a hanes crefyddau'r byd, a hyny heb ollwng gafael o iaith eu mam. Bu Olwen, yr ieuengaf, yn arholi Ysgolion Canolraddol Cymru am rai blynyddoedd yn y Ffrancaeg.

Yn Rhydychain preswyliai'r Proffeswr a Mrs. Rhys mewn tŷ prydferth ar Ffordd Banbury, a wir deilyngai'r enw Gwynfa, hyd nes y symudasant, un mlynedd ar bymtheg yn ol, i drigfan swyddogol penaeth Coleg yr Iesu. Mawr oedd llawenydd Cymru benbaladr yn nyrchafiad yr Athro gwladgar a'i gymar letygar. Yn y penaethdy, fel cynt, parhasant groesawu efrydwyr ac ymwelwyr Cymreig a dysgedigion Prydeinig a thramor. Cyrchfan oedd eu preswylfod i holl feibion Cymru yn y Brifysgol, a mawr oedd dylanwad cymdeithasol y foneddiges hynaws ei hymddiddan a gadwai dŷ mor ddiarhebol o agored. Pan urddwyd y Proffeswr yn Farchog barnai pawb nad llai oedd ei haeddiant hithau na'r eiddo yntau i'r anrhydedd, canys ni chafodd gwr cyhoeddus ac ysgolhaig llafurfawr erioed wraig lawnach ei chydymdeimlad a holl amcanion ei phriod, a llwyrach ei gwybodaeth o holl fanylion ei waith. Nid digon oedd ganddi gymeryd y gofal personol mwyaf o hono. Byddai yn myned gydag ef ar ei amrywiol deithiau ymchwiliadol yn y wlad hon ac ar y Cyfandir, a chymerai y dyddordeb mwyaf yn mhob darganfyddiad o'i eiddo mewn ieitheg, chwedloneg, a hynafiaethau.

Gweithiodd am flynyddoedd yn galed ac yn gyson o blaid Rhyddfrydiaeth yn ninas Rhydychain, ac yn y wlad o amgylch. Bu gwleidyddwyr Rhyddfrydig droion yn lletya gyda hi yn ystod eu hymweliadau a'r Brifysgol, a hysbys ddigon yw eu cysylltiad fel teulu a Changhellydd y Trysorlys a wnaed yn ddiweddar yn Gymrawd mygedol o Goleg yr Iesu. Er maint ei hymlyniad wrth y Cyfundeb, amddifadwyd hi yn ystod ei arhosiad yn Rhydychain o'r addoliad a hoffai yn yr iaith Gymraeg, ond darllenai yn gyson y Beibl Cymraeg a Llyfr Hymnau y Methodistiaid Calfinaidd. Er eanged ei chalon a'i barn, nis boddlonid hi gan syniadau penchwiban mewn duwinyddiaeth. Difrifoldeb cynhenid ei thueddfryd a barai iddi ffieiddio pob math o wagedd a gwamalrwydd.

Er na fynegwyd mo'r haner eto am rinweddau diledryw ac athrylith eithriadol y wir etholedig arglwyddes hon, rhaid i awdwr hiraethus hyn o amherffaith gofiant ofidio hefyd ddarfod ei luddias gan brinder gofod rhag cydnabod ei ddyled bersonol, er's dros chwarter canrif bellach, am y croesaw dibaid, y lletygarwch cyson, a'r sirioldeb rhadlon a'i gwnai ef, fel canoedd eraill o Gymry a dderbyniai hi i'w thŷ, bob amser yn gartrefol oddicartref, ac mewn llawer peth efe a gafodd ragorfraint cyfeillgarwch neillduol. Ond y caredigrwydd a'r rhydd-gymdeithas nas gellir eu llawn draethu yma a hir erys mewn adgof uwch anghof i eglur seinio ei thirion glodydd.

Ba alar sy bob eiliad!
Digroew yw gwlith dagrau gwlad;
Oera' galar wyr gwiwlys,
Luddias rhawd 'r Arglwyddes Rhys,—
Rhawd ucha'r fan Rydychen,
Ddwysgall oes, hyddysga'i llen;
Ei choeth len, o chwaeth lonwiw,
Urddol oedd, drych hardda' 'i liw;
Addas urdd, Arglwyddes iawn,
Naws ynni hoenus uniawn;
Hynt rhyglyddiant Arglwyddes,
Bun a'i llaw i bennu lles,
Ni fedra'n hyn o fydrwaith,
Enaid gwyn, nodi ei gwaith.
I'r Marchog daeth grym erchyll,
A dinawdd edn, newydd hyll,
A bro syw, pan glybu'r sain,
Ddolefodd ei hwylofain.
I gu Farchog a'i ferched,
Heb ludd rhith, serch pobloedd red;
I'w borth glwys o barthau gwlad,
Gwyd mud aml gydymdeimlad.
Cael gwys mae Coleg Iesu
I oerwasg ddwys dirwisg ddu.

Cychwynnodd dysg a cheinwaith,
Eirioes swydd athrawus waith,
Wychynt fraint ei chyntaf ris,
Heulwen bur o Lanberis.
Yn Ynys Fôn, hynaws faeth,
Y glaniodd dan Ragluniaeth.
Yma cywrain glwm cariad
Unai fun a Ieuan fad;
Rhinwedd oedd, i'w riain dda,
Lafurfawr, lewaf yrfa.
'I anturiaeth o Bonterwyd,
Bersain, a bair synnu byd.

I Rydychen rhoed achos
Hynod lwydd o'i hanian dlos;
Hawddgar lais, ddiguro lith,
Ddoeth areulwedd athrylith.
Haelwychr lewych arlwyodd
Fri drudford rad, frwd ei rhodd.
Llen a lleyg enillai'n llwyr
Iraidd swyn ei rhwydd synnwyr.
Nwyf y fwynaf Fyfanwy
Ddiwyd oedd i'w hudo hwy,
Landeg Olwen, dug eilwaith
Radd lifrydd hwyl hoewfwrdd iaith,

Heno'n iach mewn hoen uchod,
Eurwych ran goruwch y rhod;
Lwyra'i mawl hi ery mwy,
Heb drymwaith ac heb dramwy;
Daeth o boen ac adwyth byth,
Hyd i'r gafell dragyfyth.
Hi ddaw i oddiweddyd
Ystyr ber histori byd,
Einioesgwrs llawn (ys gwers llu)
Coleg oes gwiwlug Iesu.

---

*Dolgellau: Argraffwyd gan E. W. Evans, Swyddfa'r "Goleuad," Smithfield Lane.*

XCS 314014

Don. 734. 26-5-1911.

6794